# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** | **Sarah Beasley** |
| Dyddiad: Dydd Iau, 3 Tachwedd 2016 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.15 | 0300 200 6565 |
| | SeneddIechyd@cynulliad.cymru |

**Yn ei gyfarfod ar 19 Hydref, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 1 y cyfarfod a gynhelir heddiw**

## Sesiwn breifat

## 1 Paratoi ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18

(09.15 - 11.15)

Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards, Cyfarwyddwr Ymchwil Economeg Iechyd, Prifysgol Bangor

## Egwyl (11.15 - 11.30)

## Sesiwn cyhoeddus

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18

(11.30 - 13.00) (Tudalennau 1 - 64)

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru
Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid
Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Trafod tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(13.00 - 13.20)

**Sesiwn breifat**

**Egwyl (13.20 - 14.00)**

## 6 Briff technegol ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(14.00 - 15.00) (Tudalennau 65 - 69)

Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol
Chris Tudor-Smith, Uwch-swyddog Cyfrifol
Chris Brereton, Prif Swyddog Iechyd Amgylcheddol
Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Dyddiad: 03 Tachwedd 2016**
**Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd**
**Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2017/18**

**Diben**

1. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 4 Awst yn eu gwahodd i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft a gofyn iddynt ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

**Cyflwyniad**

2. Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft ar 18 Hydref 2016. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am Brif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd, Llesiant a Chwaraeon cynigion cyllideb y dyfodol ar gyfer 2017-18 a hefyd yn rhoi'r diweddaraf am feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

**Trosolwg o'r Gyllideb**

| | **2017-18** |
|---|---|
| **Refeniw** | **£m** |
| Llinell Sylfaen Ddiwygiedig y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) 2016-17 | 6757.329 |
| Dyraniad Prif Grŵp Gwariant (MEG) | 285.000 |
| Gostyngiad y cytunwyd arno i'r MEG | (1.587) |
| Trosglwyddiadau MEG i MEG | (4.123) |
| **DEL diwygiedig fel ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016** | **7036.619** |
| **Cyfalaf** | |
| Dyraniad Cyfalaf | 245.393 |
| **Cyfanswm Cyffredinol MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon** | **7282.012** |

Nid yw'r tabl yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y cysoni o'r gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd 2016-17 i'r gyllideb sylfaenol ddiwygiedig ar gyfer pob elfen o'r MEG.

| **DEL adnoddau** | **£m** |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyntaf Gyhoeddedig 2016-17 | 6742.971 |
| Dyraniad Buddsoddi i Arbed | 14.619 |
| Trosglwyddo i'r MEG Economi a'r Seilwaith | (0.261) |
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2016-17** | **6757.329** |
| **DEL Cyfalaf** | |
| Cyllideb Atodol Gyntaf Gyhoeddedig 2016-17 | 273.376 |
| Dyraniad MEG | 30.189 |
| Dileu cyllid nad yw'n rheolaidd | (53.481) |
| Trosglwyddo i'r MEG Llywodraeth Leol | (4.691) |

| | |
|---|---|
| **Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2016-17** | **245.393** |

3. O gymharu â'r llinellau sylfaen diwygiedig ar gyfer 2016-17, mae cyfanswm y dyraniad Adnoddau ar gyfer Iechyd, Llesiant a Chwaraeon wedi cynyddu **£279.290 miliwn** a chynnydd o **£25.498 miliwn** o ran cyfalaf. I grynhoi dyma'r symudiadau:

| **Adnodd** | **£m** |
|---|---|
| Buddsoddiad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn yn unol â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r GIG yng Nghymru gan gynnwys £20m ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl o'r Cytundeb ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru | 240.000 |
| Cyllid ychwanegol ar gyfer addysg gofal iechyd broffesiynol gan gynnwys ysgolion meddygol o'r Cytundeb ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru | 7,000 |
| Cyllid i gryfhau'r gofal diwedd oes o'r Cytundeb ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru | 1,000 |
| Cyllid at sefydlu darpariaeth i ymdrin ag anhwylderau bwyta a hunaniaeth rhywedd yng Nghymru o ganlyniad i'r Cytundeb ar y Gyllided gyda Phlaid Cymru. | 1,000 |
| Dyraniad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn mewn perthynas â buddsoddi mewn Cronfa Driniaeth | 16.000 |
| Cyllid ychwanegol mewn perthynas ag adnoddau nad ydynt yn arian parod | 20.000 |
| Swm net a drosglwyddwyd yn ôl i'r cronfeydd wrth gefn | (1.587) |
| Trosglwyddo net i'r MEG Cymunedau a Phlant mewn perthynas â swyddogaethau eiriolaeth | (0.732) |
| Trosglwyddo i'r MEG Llywodraeth Leol mewn perthynas â throsglwyddo cyllid i'r Setliad Cymorth Refeniw | (3.391) |
| **Cynnydd Net DEL Adnoddau** | **279.290** |
| **Cyfalaf** | |
| Buddsoddiad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn, gan gynnwys £15m ar gyfer offer diagnostig yn sgil y Cytundeb ar y Gyllideb gyda Phlaid Cymru. | 30.189 |
| Trosglwyddo i'r MEG Llywodraeth Leol | (4.691) |
| **Cynnydd Net Cyfalaf** | **25.498** |

4. Dangosir manylion yr holl drosglwyddiadau yn Atodiad A i'r papur.

**Asesiad o Effaith Integredig yn Atodiad B**

5. Mae Asesiad o Effaith Integredig wedi'i atodi yn Atodiad B i'r papur tystiolaeth hwn. Mae'r asesiad yn cwmpasu effaith ein penderfyniadau gwario ar y nodweddion gwarchodedig ynghyd â'r effeithiau ar y Gymraeg, Hawliau'r Plentyn a Threchu Tlodi.

**Dull o ran Cynigion y Gyllideb**

6. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu buddsoddi yn GIG Cymru. Y newid cyllidebol mwyaf sylweddol i'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar gyfer 2017-18 yw'r buddsoddiad ychwanegol o £240 miliwn yn GIG Cymru, a ddangosir yn y Cam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd'. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cydnabod y pwysau o ran y gost a'r galw sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru a amlinellwyd yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield 2014, ac yn fwy diweddar yn yr adroddiad Sefydliad Iechyd – *Y llwybr i gynaliadwyedd*.

7. Bydd manylion am ddyraniad y cyllid hwn i sefydliadau'r GIG yn cael eu darparu yn nyraniadau refeniw'r GIG ar gyfer 2017-18, a gyhoeddir yn ddiweddarach yn yr hydref. Bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran sylweddol o'r cyllid ychwanegol hwn i sefydliadau'r GIG i'w galluogi i dalu am ddyfarniadau cyflog i gyflogeion y GIG a chontractwyr annibynnol, y costau i GIG Cymru yn sgil Ardoll Brentisiaethau llywodraeth y DU, a chynnydd costau chwyddiannol eraill. Bydd £20 miliwn o'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei glustnodi i gynorthwyo mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl i gynorthwyo'r cynllun Cyflawni ar Iechyd Meddwl a lansiwyd ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y byd ar 10 Hydref.

8. Bydd Llywodraeth Cymru yn neilltuo cyllid i gynorthwyo Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda i ddatblygu cynlluniau gwasanaeth ac ariannol cynaliadwy. Nid yw'r ddau sefydliad wedi gallu datblygu cynlluniau cymeradwy ers i'r fframwaith cynllunio newydd gael ei sefydlu ym mis Ebrill 2014. Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei roi mewn mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2015 ac, i alluogi'r Bwrdd i ymateb nid oedd yn ofynnol iddo baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i mi ei gymeradwyo ar gyfer 2016-17 i 2018-19. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn wynebu heriau hirsefydlog ac nid oedd yn gallu paratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig i mi ei gymeradwyo, a oedd yn ffactor a ddylanwadodd ar y penderfyniad i godi'r Bwrdd i "ymyrryd wedi'i dargedu" ym mis Medi. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r ddau sefydliad drwy'r broses ymyrryd i gynorthwyo datblygu cynlluniau ariannol heriol, ond realistig, ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y ddau fwrdd yn derbyn eu rhan o gyllid ychwanegol a fydd yn cael ei ddyrannu i'r holl fyrddau iechyd i fodloni'r galw o ran costau a'r galw am wasanaethau. Yn ogystal, bydd angen cymorth ariannol ychwanegol ar y ddau fwrdd i alluogi paratoi cynllun y gellir ei gyflawni yn 2017-18, a bydd graddau'r cyllid ychwanegol i'w ddarparu at y diben hwn yn cael ei gadarnhau fel rhan o broses gynllunio'r GIG ar gyfer 2017-18.

9. Byddwn hefyd yn neilltuo cyllid i gynorthwyo ein Rhaglen allweddol ar gyfer ymrwymiadau'r Llywodraeth i'r GIG fuddsoddi yn ein staff gofal iechyd, drwy gymryd camau gweithredu i ddenu a hyfforddi mwy o feddygon teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo ein hymrwymiad i symud mwy o ofal o ysbytai i gymunedau.

10. Yng Nghymru mae gennym gofnod gwych o fuddsoddi yn rôl fferyllwyr a datblygu'r rôl hon. Fel rhan o wasanaeth gofal sylfaenol cryf, mae fferyllfeydd yn hanfodol i reoli'r galw cynyddol ar feddygfeydd meddyg teulu drwy leihau apwyntiadau diangen a sicrhau bod pobl yn gallu gweld y gweithiwr proffesiynol cywir yn y lleoliad cywir ar yr adeg gywir. Mae newidiadau a gyhoeddwyd yn Lloegr yn peri ansefydlogrwydd i gontractwyr fferylliaeth. Yng Nghymru rydym yn diogelu ein

buddsoddiad mewn fferylliaeth gymunedol yn 2017-18. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chontractwyr fferylliaeth i ystyried sut y gallwn gynyddu ansawdd gofal a'r amrywiaeth o wasanaethau fferyllfa a ddarperir yn y buddsoddiad sylweddol rydym yn ei wneud yn y sector eisoes.

11. Rydym yn ymrwymedig i wella cyflwyno triniaethau arloesol, seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru. Felly rydym yn buddsoddi £16 miliwn yn 2017-18 fel rhan o'r gronfa triniaethau newydd. Bydd y gronfa newydd hon yn rhoi mynediad cyflym i bobl yng Nghymru at driniaethau newydd ac arloesol ar gyfer pob salwch sy'n rhoi bywyd yn y fantol.

12. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y brif ddogfennaeth gyllideb a gyhoeddwyd ar 18 Hydref.

**Trawsnewid Gwasanaethau**

*Ysgogi a chyflawni newid gwasanaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol.*

13. Yn ein llythyr i'r Pwyllgor dyddiedig 12 Hydref, mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Medi, esboniwyd y gall newid gwasanaeth ddigwydd mewn nifer o lefelau sefydliad a chynnwys ymyriadau ar lefelau gwahanol o ran graddfa, cwmpas, cymhlethdod ac effaith. Gwnaethom hefyd amlinellu llawer o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan GIG Cymru sydd wedi sicrhau newid gwirioneddol ac arwain at well gwasanaethau i gleifion.

14. Mae swyddogion yn parhau i ystyried opsiynau sy'n deillio o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd ‘Ein Hiechyd Ein Dyfodol’, gan gynnwys y potensial i sefydlu panel arbenigol y dylid gwneud atgyfeiriadau newid gwasanaeth iddo.

15. Mae Cydweithredfa GIG Cymru hefyd yn adolygu materion llywodraethu a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â nodi opsiynau ar gyfer cydweithio'n fwy effeithiol wrth wneud penderfyniadau newid strategol. Fodd bynnag, rydym yn glir bod angen gwneud llawer mwy a bod angen cynyddu cyflymder newid.

16. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar wasanaethau a ddarperir gan systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Felly mae'n hanfodol bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio â phartneriaid eraill, fel y trydydd sector, i ddarparu gofal o ansawdd uchel i bobl a chymorth i ddiwallu eu hanghenion. Ein dull fu annog gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu a darparu gwasanaethau, gofal a chymorth integredig.

17. Gwnaed cryn waith yn y blynyddoedd diwethaf i gynyddu cyflymder a graddfa'r newid mewn perthynas ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar wella gwasanaethau, gofal a chymorth, yn enwedig i bobl hŷn ag anghenion cymhleth

*Sut mae dyraniadau cyllid yn adlewyrchu nod Llywodraeth Cymru o symud gwasanaethau o'r ysbyty i'r gymuned*

18. O fewn y buddsoddiad ychwanegol o £240m a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft, mae disgwyliad i Fyrddau Iechyd Lleol gyflawni mwy o ofal mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol yn unol â'r Cynllun Gofal Sylfaenol (Tachwedd 2014). Mae disgwyl i sefydliadau'r GIG, drwy eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, nodi cynlluniau clir ar gyfer symud gwasanaethau, gweithgaredd, gweithlu a chyllid o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a chymunedol yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus.

*Tystiolaeth o sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro gweithgarwch i sicrhau diwygio gwasanaethau mewn modd ystyrlon a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleifion.*

19. Mae Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd yn nodi sut y bydd cynlluniau newid gwasanaeth y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu, ynghyd â'r cerrig milltir ar gyfer cytuno ar ad-drefnu gwasanaeth a'u gweithredu yn cael eu datblygu.

20. Mae disgwyl i sefydliadau'r GIG feddu ar farn hirdymor a bod yn glir ynghylch y camau gweithredu y byddant yn eu cymryd yn y dyfodol agos i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, hygyrch a chynaliadwy yn y cyd-destun polisi cenedlaethol. Mae'r cynlluniau a nodwyd gan y GIG yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy gyfarfodydd ansawdd a chyflawni rheolaidd a chyflwyno adroddiadau chwarterol drwy gyfarfodydd Tîm Gweithredol ar y Cyd rhwng uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion gweithredol y GIG.

21. Enghraifft benodol o sut mae buddsoddi yn arwain at drawsnewid gwasanaeth ac yn cael ei fonitro yw ein bod wedi buddsoddi bron £8 miliwn mewn trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac mae rhaglen uchelgeisiol Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn ei lle. Mae hyn yn ceisio sicrhau bod plant yn cael eu gweld yn y lle cywir i ddiwallu eu hanghenion na fydd o bosibl bob amser o fewn gwasanaethau CAMHS arbenigol iawn. Mae hyn eisoes yn cyflawni canlyniadau sylweddol gyda byrddau iechyd wedi symud ymlaen yn dda gan recriwtio dros 130 o aelodau newydd o staff, mae lleoliadau y tu allan i'r ardal i blant yn lleihau gyda chostau'n gostwng hefyd. Rydym wedi datblygu timau niwroddatblygiadol newydd ar gyfer ADHD ac awtistiaeth ledled Cymru gydag amseroedd aros eisoes wedi lleihau'n sylweddol, a disgwylir y bydd plant yn cael eu gweld mewn modd amserol sy'n glinigol briodol. Rwyf i fel Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfarfod ag Is-Gadeiryddion BILl yn chwarterol ac mae darparu CAMHS yn uchel ar gyfer yr agenda i'w thrafod.

22. Mae £9 miliwn o gyllid wedi'i ddarparu hefyd yn flynyddol i naw o'r cynlluniau cyflawni prif gyflyrau iechyd sy'n cynnwys canser, clefyd y galon, strôc, cyflyrau niwrolegol, diabetes, iechyd anadlol, yr afu/iau, a gofal diwedd oes i'r rhai sy'n ddifrifol wael. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu gan y grwpiau gweithredu ar gyfer pob cynllun ac mae'n cael ei ddefnyddio i gryfhau llwybrau, gwella safonau a darparu gofal yn agosach i'r gymuned. Rhoddais rai enghreifftiau o ganlyniadau’r cyllido hwn yn fy natganiad llafar ar 4 Hydref.

*Beth yw'r targedau effeithlonrwydd 2017-18 yn y sector iechyd a sut y mae'r rhain yn cael eu monitro / dilysu.*

23. Nid yw Llywodraeth Cymru yn nodi'n benodol dargedau cynhyrchiant ac ariannol ar gyfer sefydliadau'r GIG. Mae disgwyl iddynt ateb yr heriau gwasanaeth ac ariannol sy'n gysylltiedig â phwysau costau, newid demograffig a mwy o alw o'r tu mewn i'w dyraniad. Bydd gan bob sefydliad GIG heriau gwasanaeth ac ariannol ychydig yn wahanol, yn dibynnu ar y cymysgedd a'r amrywiaeth o wasanaethau a gomisiynir ac a ddarperir, ac felly ni fyddai targed effeithlonrwydd cyffredinol yn briodol.

24. Bydd y buddsoddiad ychwanegol o £240 miliwn yn GIG Cymru yn galluogi sefydliadau i barhau i fodloni'r twf parhaus o ran galw a chostau gwasanaethau sydd wedi'u disgrifio yn adroddiadau Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Sefydliad Iechyd. Mae'r buddsoddiad yn tybio cyflawni parhaus arbedion effeithlonrwydd o 1% o leiaf mewn termau real bob blwyddyn, yn gysylltiedig ag arbedion effeithlonrwydd yn y sector acíwt a gwella rheoli cleifion â chyflyrau cronig i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty.

25. Mae Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella wedi'i sefydlu ar y cyd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch weithwyr proffesiynol yn y GIG. Mae'r Grŵp wedi'i sefydlu i nodi a chyflawni cyfleoedd i wella ansawdd, gwerth ac effeithlonrwydd. Mae'n beiriant ar gyfer newid, o dan arweiniad Prif Weithredwr GIG Cymru, gan sicrhau bod sefydliadau'n mabwysiadu effeithlonrwydd seiliedig ar dystiolaeth, neu'n cyfiawnhau achosion o beidio â chydymffurfio.

26. Mae effeithlonrwydd ariannol, drwy gyflawni yn erbyn cynlluniau tymor canolig neu weithredol, yn cael eu monitro drwy Ffurflenni Monitro Ariannol misol a gyflwynir gan bob sefydliad y GIG.

*Pa ddarpariaethau sydd wedi'u gwneud yn y gyllideb hon ar gyfer cynlluniau taliad diswyddo a dileu swyddi staff yn y gwasanaeth iechyd a'r hyn a wariwyd ar gynlluniau o'r fath yn y GIG yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.*

27. Nid yw Cyllideb Ddrafft 2017-18 yn cynnwys unrhyw ddyraniadau penodol i gynlluniau taliad diswyddo staff. Gall sefydliadau'r GIG wneud cais i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gynorthwyo cynlluniau taliad diswyddo staff, fel y cais llwyddiannus i'r Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS). Yn 2015-16 roedd y gwariant ar VERS yn y GIG yn gyfwerth â £2.3 miliwn.

**Gwario Ataliol**

28. Mae atal problemau iechyd ac ymyrryd yn gynnar yn ffocws craidd y GIG yng Nghymru, wedi'i gryfhau gan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae fframwaith cynllunio'r GIG yn rhoi egwyddorion datblygu cynaliadwy'r Ddeddf, gan gynnwys cymryd dull ataliol a hirdymor, fel egwyddorion trefnu sefydliadau'r GIG.

29. Mae cynrychioli gwariant ataliol yn ein dyraniad adnoddau yn gymhleth iawn oherwydd gall gymryd amrywiaeth o ffurfiau ac nid yw bob amser yn cael ei wahanu'n hawdd oddi wrth fathau eraill o wariant. I gymryd yr enghraifft o'n

buddsoddiad cynyddol mewn gofal sylfaenol, mae llawer o'r gweithgaredd sy'n deillio o'r gwariant hwnnw yn ceisio hyrwyddo gwell iechyd a llesiant; nodi clefyd neu arwyddion rhybudd o glefyd yn gynnar; a darparu triniaeth effeithiol brydlon i alluogi adfer ac atal cynnydd cyflyrau. Gall yr holl weithgaredd hwn gael ei ddosbarthu fel gwariant ataliol a gall leddfu'r galw tymor byr ar wasanaethau. Mae byrddau iechyd lleol yn gwario tua chwarter o'u cyllideb ar wasanaethau gofal iechyd sylfaenol.

30. Gall ehangder gwariant ataliol gael ei ddangos gan gategoreiddio atal sylfaenol; gellir rhoi enghreifftiau o gymorth ataliol eilaidd ac atal trydyddol o dan bob un. Mae atal sylfaenol yn ceisio atal dechrau clefyd a phroblemau cysylltiedig: byddai enghraifft yn cynnwys ein rhaglenni imiwneiddio helaeth. Mae cymorth ataliol eilaidd yn ceisio atal cynnydd clefyd; un enghraifft fyddai ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol. Yn olaf, mae atal trydyddol yn cwmpasu gweithgaredd sy'n ceisio adsefydlu'r rhai â chlefyd sefydledig i leihau cymhlethdodau ac atal problemau rhag gwaethygu: gall llawer o'r gwariant gofal sylfaenol ddod o fewn y categori hwn.

31. Dyrennir £88.7 miliwn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2017-18. Mae'r cyllid hwn yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau iechyd cyhoeddus sy'n cwmpasu gwella a diogelu iechyd, felly mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl allweddol i'w chwarae wrth gynorthwyo darparu llawer o gamau gweithredu mewn perthynas â gwella iechyd cyhoeddus a lleihau anghydraddoldebau iechyd mewn plant a phobl ifanc. Nid yw'r dyraniad cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer unrhyw weithgaredd penodol i alluogi'r hyblygrwydd mwyaf posib o ran rheoli eu hadnoddau i gyfarfod ag amrywiaeth eang o flaenoriaethau ac ymrwymiadau.

32. Mae canolbwyntio ar atal yn allweddol yn yr agenda camddefnyddio sylweddau. Mae llawer o'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 yn canolbwyntio ar bwysigrwydd atal a'r cysylltiadau ag iechyd a gofal darbodus. Er enghraifft, ceir pwyslais yn y Cynllun ar gamau gweithredu a fydd yn lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y gall gwasanaethau Gofal Sylfaenol ei chwarae wrth atal camddefnyddio sylweddau, a'i ganfod yn gynnar a'i drin.

33. Mae meddu ar yr holl ysgogiadau polisi sydd eu hangen arnom i gryfhau ein dull i atal yn hanfodol ac rydym yn parhau i wneud yr achos dros ddatganoli trwyddedu alcohol oherwydd byddai hyn yn ein galluogi i ddilyn dull mwy ataliol sy'n canolbwyntio ar iechyd o ran niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Fodd bynnag, er gwaethaf cynrychioliadau blaenorol, mae Bil Cymru drafft, a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2015, yn cadw'r hawl i werthu a chyflenwi alcohol i Lywodraeth y DU. Yn ystod hynt Bil Cymru drwy Dŷ'r Cyffredin cyflwynwyd gwelliant i ddileu'r cyfyngiadau ar drwyddedu alcohol ac ar werthu a chyflenwi alcohol ond ni chytunwyd ar hyn. Rydym yn dychwelyd at y mater hwn yn ystod ystyriaeth bresennol y Bil gan Dŷ'r Arglwyddi.

34. Mae atal niwed y gellir ei osgoi yn rhyddhau arian at ddibenion iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Mae GIG Cymru yn mabwysiadu ffocws cynyddol ar ofal iechyd seiliedig ar werth, lle gellir cyflawni arbedion effeithlonrwydd o fewn maes clefyd penodol drwy fwy o ffocws ar atal cynnydd y clefyd, mae hynny'n werth mynd ar ei drywydd. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio wedi paratoi cynlluniau cyflawni seiliedig ar werth ar gyfer gwasanaethau orthopedeg, clust, trwyn a gwddf, offthalmoleg ac wroleg.

35. Mae atal wrth wraidd rhaglen Llywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau gofal a chymorth yn aros hyd nes bod pobl yn cyrraedd pwynt argyfwng cyn ymateb.

**Y Gronfa Gofal Canolraddol**

36. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i barhau â'r Gronfa Gofal Canolraddol. Rydym yn parhau i fuddsoddi £50 miliwn yn y Gronfa Gofal Canolraddol yn 2017-18, gan gynorthwyo gwell mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol integredig fel bod mwy o bobl fregus a hŷn yn cael gofal yn eu cartrefi neu'n agos at eu cartrefi.

37. Mae Tystiolaeth o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi bod y Gronfa Gofal Canolraddol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a bydd gwell trefniadau monitro ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl. Bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y gwahaniaeth mae'r Gronfa Gofal Canolraddol yn ei wneud.

38. Mae amrywiaeth o wahanol fodelau gofal a chymorth wedi'u sefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys atebion ataliol ac ailalluogi, pwyntiau mynediad unigol, gwelliannau tai a theleofal, timau ymateb cyflym, gofal dementia a chymorth gwaith cymdeithasol saith diwrnod. Mae hyn wedi'i gyflawni gan ddatblygu diwylliant o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.

39. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol yn gyfle gwych i gyflawni rhaglen o waith a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl hŷn ledled Cymru, drwy wella cynlluniau arloesol presennol neu newydd. Mae'n hyrwyddo cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, ynghyd â phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol.

40. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael eu sefydlu. Mae'r rhain yn dwyn ynghyd fyrddau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector i gynllunio a darparu ar y cyd ar gyfer anghenion gofal a chymorth dinasyddion Cymru. Mae gan y byrddau hyn drosolwg o'r Gronfa Gofal Canolraddol ac maent yn sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n effeithiol a'i chyflawni. Mae enghreifftiau penodol o gynlluniau fel a ganlyn:

- Mae'r gwasanaeth Camu i Fyny/Camu i Lawr ledled gogledd Cymru yn ceisio darparu gwelyau arhosiad byr i bobl sy'n dod allan o'r ysbyty sy'n feddygol ffit ond nad ydynt yn barod i fynd adref. Mae'r gwelyau yn cael eu defnyddio fel cyfle i bobl gamu i fyny yn y gymuned i osgoi mynediad i'r ysbyty, lleoliad hirdymor, a chynorthwyo rheoli argyfwng.

- Mae'r gwasanaeth Ailalluogi Estynedig i Bobl â Dementia yn rhoi cymorth ar draws Cwm Taf i alluogi pobl â dementia i aros mor annibynnol â phosibl. Mae adnoddau'n canolbwyntio ar gleifion dementia nad oedd yn gallu cael mynediad i amrywiaeth o ofal ail-alluogi a chanolraddol. Yn 2015-16 cafodd y gwasanaeth bron 150 o atgyfeiriadau gan arwain at arbed dros 100 o ddyddiau gwely.

- Mae Tîm Sefydliadau Gwirfoddol Canolraddol Sir Benfro yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr i gynorthwyo atal derbyniadau i'r ysbyty a chynorthwyo cleifion pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Derbyniodd y bartneriaeth trydydd sector hon, sy'n cynnwys Age Cymru a'r Groes Goch Brydeinig, dros 230 o atgyfeiriadau y llynedd gan arwain at arbed 960 o ddyddiau gwely ac osgoi bron 100 o dderbyniadau i'r ysbyty.

*Bydd sut mae newidiadau cyllid mewn cyllidebau llywodraeth leol, ac yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol, yn 2017-18 yn effeithio ar y GIG, yn enwedig yn sgil y gydnabyddiaeth bod gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol yn ffactor allweddol o ran lleihau'r galw am wasanaethau'r GIG*.

41. Mae Adran 15 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol i gyflawni dibenion amrywiol, gan gynnwys atal oedi datblygu anghenion gofal a chymorth pobl.

42. O dan adran 14 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Rhaid i'r ymarfer hwn hefyd asesu ystod a lefel y gwasanaethau ataliol sy'n angenrheidiol. Bydd hyn yn galluogi i gyllidebau ac adnoddau gael eu dyrannu'n effeithiol i fuddsoddi mewn mynd i'r afael â materion yn ataliol.

**Fformiwla dyrannu adnoddau a dosbarthu cyllid ychwanegol**

*Y meini prawf a ddefnyddiwyd/a fydd yn cael eu defnyddio i ddyrannu cyllid ar gyfer sefydliadau'r GIG yn 2017-18.*

43. Byddwn yn dyrannu cyllid craidd ychwanegol i fyrddau iechyd lleol i fodloni cynnydd anochel mewn costau yn 2017-18 gan ddefnyddio cyfrannau fformiwla bresennol Townsend. Bydd rhagor o fanylion am ddosbarthu'r dyraniad hwn yn cael eu darparu i fyrddau iechyd yn y dyraniad refeniw a gyhoeddir yn ddiweddarach yn yr hydref.

*Sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau bod cydbwysedd rhwng cynnal y dosbarthu cyllid presennol a symud tuag at gyfrannau yn seiliedig ar fformiwla Townsend sydd wedi'i diweddaru.*

44. Mae fformiwla Townsend dim ond yn cael ei chymhwyso i ddyraniadau ychwanegol, nid dyraniadau craidd presennol. Bydd dyraniadau refeniw byrddau iechyd lleol ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar eu dyraniad 2016-17, gydag ychwanegiad cynnydd cyllid craidd wedi'i ddosbarthu drwy ddefnyddio cyfrannau Townsend. Yn

ychwanegol, byddwn yn targedu rhywfaint o gyllid i fodloni blaenoriaethau penodol, gan gynnwys cymorth i Fyrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda.

45. Nid oes bwriad i gymhwyso fformiwla Townsend i ddyraniadau llinell sylfaen, oherwydd bod hyn yn debygol o achosi ansefydlogrwydd ariannol sylweddol i'r ardaloedd hynny o Gymru sydd dros y targed.

*Mae'r trefniadau a fydd yn eu lle ar gyfer 2017-18 i sicrhau dull teg a thryloyw at lifoedd ariannol rhyng-sefydliadol yn GIG Cymru.*

46. Er bod llifau ariannol rhyngsefydliadol sydd wedi'u sefydlu'n dda yn GIG Cymru ceir cydnabyddiaeth yn GIG Cymru a Llywodraeth Cymru bod angen i drefniadau llif ariannol gael eu gwella a'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn modelau gofal ac adlewyrchu'r trefniadau llif cleifion newidiol a fydd yn codi drwy raglen de Cymru a chynlluniau ad-drefnu eraill.

**Darparu ar gyfer deddfwriaeth**

*Graddau a lleoliad dyraniadau i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth yn y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.*

*Y symiau a'r lleoliad yn y gyllideb o ran dyraniadau ar gyfer deddfwriaeth Cymru sy'n (a) cael ei basio yn y Cynulliad hwn ar hyn o bryd neu (b) wedi'u cynllunio yn y rhaglen ddeddfwriaethol, sy'n debygol o gael effaith ym mlwyddyn ariannol 2017-18.*

*Y symiau a ddyrannwyd ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*

47. Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried ein rhaglen ddeddfwriaethol bresennol. Mae'r tabl isod yn nodi'r costau ar gyfer 2017-18 yn ogystal â nodi'r camau gweithredu perthnasol lle mae'r cyllid yn cael ei gadw.

| Deddfwriaeth | Swm y Cyllid | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 | £0.2m | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu |
| | £0.2m | Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | £0.2m | Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | £2.8m | Cyllid Llywodraeth Leol (drwy'r Grant Cynnal Refeniw) |
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | £1.8m | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy |

48. Rhoddir diweddariad manylach o gostau ein rhaglen ddeddfwriaethol isod.

### *Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013*

49. Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2013. Fel rhan o'i gweithredu, cafodd cyllid ei nodi yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon bellach, o 2012-13 ymlaen. Mae'r cyllid hwn, sef £0.4m wedi'i rannu rhwng cyflenwi gwasanaethau GIG wedi'u targedu a chyflenwi cyllidebau gwasanaethau GIG craidd ar gyfer 2017-18.

50. O dan y Ddeddf, cafodd cydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau ei gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015 ac yn ychwanegol rhoddwyd gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo rhoi organau a thrawsblannu. Mae gweithredu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) yn parhau i gael ei gynorthwyo drwy gyllid i brosesu cofrestriadau ar y gofrestr rhoddwyr organau (i alluogi pobl i optio allan), i hyrwyddo rhoi organau ac er mwyn gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth.

### *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

51. Mae £0.2m yn cael ei gadw i gynorthwyo gweithgaredd cenedlaethol i sicrhau dulliau cyson o ran prosesau cyffredin ar draws y rhanbarthau sy'n cyflawni'r dyletswyddau o dan y Ddeddf (e.e. rheoli perfformiad, dulliau newydd o ran arfer), ac mae £2.8m yn cael ei ychwanegu at y setliad llywodraeth leol i gynorthwyo cyflawni drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol.

### *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*

52. Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Rhagwelir mai'r gwahaniaeth blynyddol mewn costau rhwng busnes fel arfer a datblygu gweithdrefn newydd, gan gyfuno elfennau sylfaenol diogelu ochr yn ochr â dull seiliedig ar ganlyniadau o ran rheoleiddio, fydd £1.765 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn rhagdybio gweithredu'r ddeddf gyfan yn llawn ond bydd yn is os bydd rhai elfennau fesul cam (fel graddfeydd).

53. Mae'r gost o £1.765 miliwn o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi proffil cost pum mlynedd ar gyfer gweithredu llawn ac, at ddibenion enghreifftiol, 2017-18 oedd y flwyddyn lawn gyntaf ar gyfer hyn. Fel y cyhoeddwyd yn y weinyddiaeth ddiwethaf, mae'r rheoliadau gwasanaeth o dan y Ddeddf yn cael eu datblygu a disgwylir iddynt ddod i rym o fis Ebrill 2018 gan ddisgwyl y bydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn mis Ebrill 2019. Rhagwelir mai oddeutu £1 miliwn fydd y gost ar gyfer AGGCC yn ymwneud â gweithredu'r Ddeddf yn ystod 2017-18.

### *Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)*

54. Yn unol â datganiad y Prif Weinidog ar y rhaglen ddeddfwriaethol, bydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad. Bydd yn atgynhyrchiad o'r fersiwn fel y'i diwygiwyd ar Gam 3 y broses graffu flaenorol, ond heb y darpariaethau blaenorol sy'n cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (fel e-sigaréts)

mewn rhai mannau cyhoeddus. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn ddiweddarach yn yr hydref.

55. Mae goblygiadau ariannol amcangyfrifedig gweithredu'r Bil hwn wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Bil. Bydd costau gweithredu yn dechrau o 2017-18 ymlaen. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi nodi costau posibl ar gyfer amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Bydd costau gweithredu Llywodraeth Cymru yn cael eu talu o gyllideb yr Is-adran o fewn y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol â'r cyfrifoldeb arweiniol ar gyfer pob maes yn y Bil. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn o'r gyllideb Gwella Iechyd a Gweithio Iach.

56. Cydnabyddir y bydd llywodraeth leol yn sector allweddol o ran gweithredu'r ddeddfwriaeth, yn enwedig drwy eu cyfrifoldebau gorfodi presennol. Mae ymdrechion wedi'u gwneud ar draws y Bil i leihau'r baich ariannol ar awdurdodau lleol, er enghraifft, drwy greu ffrydiau ariannu ar gyfer llywodraeth leol fel o'r trwyddedau gweithdrefnau arbennig a derbyniadau hysbysiad cosb benodedig.

**Cyllid cyfalaf**

*Mae'r ymarfer blaenoriaethu cyfalaf diweddar, gan gynnwys y wybodaeth ganlynol am yr holl brosiectau parhaus a phrosiectau a gynlluniwyd: cyfanswm cyllideb y prosiect; cyllid a ddyrennir ar hyn o bryd; cyllid a ddyrennir yn 2017-18; llinell amser buddsoddi blynyddoedd y dyfodol a dyddiad cwblhau amcangyfrifedig.*

57. Mae'r dyraniad cyllid cyfalaf ar gyfer 2017-18, sef £245.393m, yn gynnydd o dros £30m yn erbyn y llinell sylfaen cyllido rheolaidd.

58. Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cynnwys gwybodaeth am gynlluniau cyfalaf sylweddol parhaus ac arfaethedig ledled Cymru, gan gynnwys GIG Cymru. Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn seiliedig ar Gynlluniau Tymor Canolig Integredig sefydliadau'r GIG a ddisgrifiodd y gofynion buddsoddi seilwaith i ddatblygu trawsnewid gwasanaeth, yn ogystal â chynnal a moderneiddio adeiladau ac offer presennol a chyflwyno rhai newydd yn eu lle.

59. Mae'r rhagolwg yn cynnwys nifer o gynlluniau cyfalaf sylweddol, a'r mwyaf yw'r Ganolfan Gofal Critigol Arbenigol. O ystyried maint ac arwyddocâd y buddsoddiad, mae angen i'r cynnig roi tystiolaeth o achos cadarn i fodloni ein meini prawf buddsoddi o ran cynnydd mewn iechyd, cynaliadwyedd clinigol a sgiliau, tegwch, fforddiadwyedd a gwerth am arian. Mae'r achos busnes terfynol wedi'i adolygu'n annibynnol, ac rydym wedi nodi'n glir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn diwedd mis Hydref.

*Mae modelau cyllido arloesol a ddefnyddiwyd yn 2017-18 neu sy'n cael eu hystyried ar gyfer codi cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau'r dyfodol, yn cynnwys defnyddio'r GIG ac ystâd gofal sylfaenol fel ysgogiadau*.

60. O ran modelau cyllido arloesol, mae gwaith yn parhau gyda Gwasanaethau Trawsnewid Canser Felindre sy'n un o nifer o gynlluniau mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu datblygu o dan y model cyllid arloesol Partneriaeth Cyhoeddus-preifat. Mae'r

cynnig ar gyfer campws ysbyty canser newydd ar safle yr Eglwys Newydd. Mae disgwyl i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno'r Strategaeth Gwasanaethau Canser, Achos Busnes Rhaglen wedi'i ddiweddaru a'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y datblygiad ysbyty newydd erbyn dechrau 2017 gyda'r ysbyty yn cael ei adeiladu erbyn diwedd 2022.

61. Mae gwaith yn parhau gyda datblygu Gwaith Llif Buddsoddi Gofal Sylfaenol ac fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon rwyf wedi pwysleisio fy mod yn disgwyl gweld mwy o weledadd ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol yng nghynlluniau'r GIG gyda newid mewn ffocws ac adnoddau o ofal eilaidd. Mae swyddogion yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i ddeall blaenoriaethau a bydd datganiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Gweithredol y GIG ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon, a fydd yn nodi cyfleoedd uniongyrchol ar gyfer buddsoddi a nodi rhaglen o weithgaredd ac adnoddau sy'n ofynnol i symud y gwaith hwn yn ei flaen yn 2017-18.

**Cronfa Risg Cymru**

*Yr amcangyfrif diweddaraf ar gyfer darpariaeth cyfrifo Cronfa Risg Cymru. Y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i reoli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn*

62. Ar 31 Mawrth 2016, darpariaeth Cronfa Risg Cymru i fodloni hawliadau yn y dyfodol oedd £682 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o £8m o gymharu â'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2015 ac mae'r cynnydd bach hwn o 1.2% yn adlewyrchu sefydlogi yn nhwf y ddarpariaeth hon o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft roedd y twf yn 2014-15 yn £80 miliwn.

63. Erys hwn yn faes cyfnewidiol iawn o wariant, a dyna pam mae cyllid i fodloni cynnydd yn y ddarpariaeth yn cael ei dalu gan Wariant a Reolir yn Flynyddol, nid y Terfyn Gwariant Dirprwyedig.

**Gofal Cymdeithasol**

*Mae'r dyraniadau ar gyfer awdurdodau lleol ac a fyddant yn ystyried y pwysau ar wariant gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, yn sgil y galw cynyddol am wasanaethau a chyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol*.

64. Mae'r dyraniadau ar gyfer awdurdodau lleol yn fater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

65. Ers 2011 a lansio Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy rydym wedi cyflwyno ymateb strategol i faterion poblogaeth sy'n heneiddio, disgwyliadau cyhoeddus uwch a thwf ariannol cyfyngedig. Mae diwygiadau deddfwriaethol a gwasanaeth sylweddol wedi'u rhoi ar waith sy'n galluogi awdurdodau lleol a'r sector ehangach i ymateb i'r heriau hyn a gwella llesiant pobl yng Nghymru. Mae 2017-18 yn dynodi ail flwyddyn y grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, lle mae dros £7 miliwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru i gyflawni'r agenda strategol a bennwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

66. Mae effaith y cyflog byw cenedlaethol wedi cael ei chydnabod gan y llywodraeth ac rydym yn parhau i weithio gyda'r sector i ddeall ei heffaith a thrafod ymatebion posibl ar draws pob rhanddeiliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru

**Iechyd meddwl**

*Y graddau y byddai'r dyraniadau cyllideb yn helpu i gyflawni mwy o gydraddoldeb rhwng gwasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.*

67. Yng Nghymru, rydym yn deall bod cyswllt annatod rhwng iechyd meddwl a chorfforol. Rydym wedi parhau i wario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag ar unrhyw ran arall o GIG Cymru, a chynyddodd y cyllid i dros £600 miliwn y flwyddyn yn 2016-17. Byddwn yn dyrannu £20 miliwn arall i'r dyraniad wedi'i glustnodi yn 2017-18, cynorthwyo'r Cynllun Cyflenwi Iechyd Meddwl a lansiwyd ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar 10 Hydref. Yn y gyllideb hon, rydym yn darparu £0.5 miliwn i ehangu'r timau anhwylder bwyta cymunedol, i alluogi mwy o bobl i gael eu gweld yn lleol. Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi dros £22 miliwn o gyllid newydd ar gyfer amrywiaeth o ddarpariaeth newydd ar draws yr ystod oedran.

68. Mae'r cyllid ychwanegol hwn wedi cynnwys £4.05 miliwn y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau cyswllt seiciatrig sy'n cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau i wella profiad pobl hŷn â phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl mewn ysbytai cyffredinol, a sefydlu timau cyswllt seiciatrig a fydd yn cynorthwyo ysbytai i ddarparu asesiadau iechyd meddwl amserol a lleihau hyd arhosiad a chyfraddau aildderbyn. Mae tystiolaeth dda bod y dull hwn yn gwella ansawdd gofal, canlyniadau i unigolion ac yn arbed arian. Mae cyllid hefyd yn cynnwys £0.3 miliwn i weithio gyda phobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sy'n datblygu iechyd meddwl difrifol. Bydd y gweithwyr cymorth trydydd sector hyn nid yn unig yn cynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl ond hefyd i'w cynorthwyo i mewn i addysg, hyfforddiant, cyflogaeth ac ail-ymgysylltu â'u cymuned i'w helpu i fyw'n annibynnol.

69. Annog lles emosiynol, gan osod pwysigrwydd iechyd meddwl yn gyfartal ag iechyd corfforol, gan ddarparu gwasanaethau effeithiol a defnyddiol ar gam cynnar, yn ogystal â sicrhau bod y rhai y mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt yn cael y gofal a'r driniaeth o'r ansawdd uchaf yn ganolog i gyflawni Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Derbyniodd Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol a sefydlwyd o dan ran 1 o'r mesur £3 miliwn o gyllid yn flynyddol pan gawsant eu sefydlu – yn sgil y galw a grëwyd am y gwasanaethau hyn mae £2.3 miliwn ychwanegol bellach wedi'i ryddhau yn flynyddol.

70. Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf rydym wedi buddsoddi £4m y flwyddyn yn ychwanegol o gyllid i therapïau seicolegol. Y llynedd cyhoeddwyd targedau iechyd meddwl newydd a wnaeth leihau'r amser targed ar gyfer asesiad o 56 diwrnod i 28 diwrnod ac amser aros targed o 26 wythnos ar gyfer cael triniaeth, yn unol ag iechyd corfforol.

71. Yn olaf, rydym yn cydnabod bod y rhai â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu risg uwch o iechyd cyffredinol gwaeth. Felly rydym yn parhau i fuddsoddi mewn mentrau gwella iechyd cyffredinol a'u cynorthwyo.

**Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**

**Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**ATODIAD A i'r Papur Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Craffu ar y Gyllideb Ddrafft.**

**Crynodeb o'r Newidiadau i 'Gamau Gweithredu' yn 2017-18 o gymharu â Llinellau Sylfaen diwygiedig ar gyfer 2016-17.**

**Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 6028.045 | 323.182 | 6351.227 |

Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd yw'r cam gweithredu mwyaf yn y MEG, gyda chyllideb refeniw flynyddol o £6 biliwn. Mae'r cam gweithredu yn darparu'r prif gyllid ar gyfer gofal y GIG (gwasanaethau ysbyty a chymunedol). Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer gofal sylfaenol (meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr). Ceir **cynnydd net** o **£323.182** miliwn i'r cam gweithredu hwn yn cynnwys dyraniad o £256 miliwn o gronfeydd wrth gefn, £20 miliwn ychwanegol o ran cyllid ar gyfer adnoddau nad ydynt yn arian parod, trosglwyddiad o £0.126 miliwn i gam gweithredu Cyflawni Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu o gam gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru a'r trosglwyddiadau canlynol i ddyraniadau'r bwrdd iechyd:

| **Trosglwyddiadau i Ddyraniad Bwrdd Iechyd:** | **£m** |
|---|---|
| O'r cam gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl | 15.737 |
| O'r cam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chyllid ar gyfer comisiynu rhoi organau gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | 3.800 |
| O'r cam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chyllid ar gyfer cynnydd yn y ffi IOS | 1.350 |
| O'r cam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u | 14.739 |

| | |
|---|---|
| Targedu mewn perthynas â chyllid ar gyfer presgripsiynau ysbyty WP10 | |
| O'r cam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chyllid ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid, gan gynnwys retinopathi diabetig | 8.714 |
| O'r cam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chyllid clwstwr gofal sylfaenol ychwanegol | 2.928 |
| | **47.268** |

**Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 249.654 | (37.393) | 212.261 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol penodol (gan gynnwys Mentrau Gofal Llygaid), yn ogystal â chyllid ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau eraill gan gynnwys: cyflawni technoleg a rheoli gwybodaeth, atebion i'r GIG yng Nghymru a chymorth ar gyfer Addysg Feddygol israddedig. Y **gostyngiad net** i'r Cam Gweithredu hwn yw **£ (37.393) miliwn** yn 2017-18 sy'n cynnwys yn bennaf £31.531 miliwn o gyllid a drosglwyddwyd i ddyraniad y bwrdd iechyd, trosglwyddo £3 miliwn i gynorthwyo'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chyllid dyfarniad talu i feddygon iau ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a throsglwyddo £(0.300) miliwn i'r MEG Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllid pensiynau rhyfel i'w drosglwyddo i'r setliad cymorth refeniw.

**Cynorthwyo Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 184.049 | 8.000 | 192.049 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynorthwyo rhaglenni addysg a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer datblygu gweithlu'r GIG. Ceir cynnydd o **£8.000 miliwn** i'r cam gweithredu hwn mewn perthynas â chyllid ychwanegol i hyfforddi gweithlu'r GIG ac £1 miliwn arall i gwmpasu costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dyfarniad cyflog ar gyfer meddygon iau.

**Cynorthwyo Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 18.411 | (14.921) | 3.490 |

Darperir cyllid craidd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl drwy'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd. Yn ogystal, mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid penodol i ddatblygu a gwella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed, oedolion a phobl hŷn yng Nghymru yn unol â'r Strategaeth Iechyd Meddwl, y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol a deddfwriaeth. Mae'n darparu cymorth, er enghraifft, i wasanaethau dementia, anhwylderau bwyta a'r Gwasanaeth Cyn-filwyr ledled Cymru. Mae gostyngiad o **£(14.921) miliwn** o ran y cam gweithredu hwn o ganlyniad i drosglwyddiad £(15.737) miliwn i'r dyraniad bwrdd iechyd, £1 miliwn ychwanegol o ran anhwylderau bwyta a Hunaniaeth o ran Rhywedd a throsglwyddo £(0.184) miliwn i'r MEG Llywodraeth Leol. Mae hyn i gwmpasu costau Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn trosglwyddo i'r grant cynnal refeniw

**Cymorth Hosbis**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 1.256 | 1.000 | 2.256 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu ar gyfer mentrau gofal lliniarol Cymru gyfan yn ogystal â chyllid rheolaidd ar gyfer hosbisau gwirfoddol. Ceir cynnydd o **£1 miliwn** ar gyfer y cam gweithredu hwn i gynorthwyo gofal diwedd bywyd.

**Cyflawni'r Cynllun Cyflenwi Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 26.975 | 0 | 26.975 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau a rhaglenni cysylltiedig i atal camddefnyddio sylweddau a chynorthwyo camddefnyddwyr sylweddau, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18

**Noddi Cyrff Iechyd y Cyhoedd**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 86.478 | 2.702 | 89.180 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyflenwi; gwasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n cwmpasu gwella a diogelu iechyd, deallusrwydd ac ymchwil iechyd y cyhoedd, a rhaglenni sgrinio cenedlaethol ar gyfer pobl Cymru. Y **cynnydd** net ar gyfer y cam gweithredu hwn yw **£2.702 miliwn.** Mae hyn mewn perthynas â £2.001 miliwn o gyllid ychwanegol i gwmpasu costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol a dyfarniad cyflog

ar gyfer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, £0.701 miliwn ar gyfer trosglwyddo'r cynllun Newid am Oes, Naw Mis a Mwy a chyllid i gwmpasu'r Ymgyrch Ffliw Tymhorol gan drosglwyddo i'r dyraniad Iechyd Cyhoeddus craidd.

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 3.516 | 0 | 3.516 |

Defnyddir hyn i gyllido Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, adran annibynnol o'r Llywodraeth, a sefydlwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.  Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18.

Cyflwyno Gweithgaredd wedi'i Dargedu i Ddiogelu Iechyd ac Imiwneiddio

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 4.421 | 0.803 | 5.224 |

Mae hyn yn darparu cyllid i sicrhau brechlynnau ar gyfer y rhaglen clefydau ataliadwy.  Mae hefyd yn cyllido amrywiaeth o ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, yn ogystal â mentrau i fynd i'r afael â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.   Y **cynnydd** net ar gyfer y cam gweithredu hwn yw **£0.803 miliwn.**   Yn cynnwys **£1.1 miliwn** i gwmpasu'r cynnydd mewn ffioedd gwasanaeth, **£(0.240) miliwn** i'r dyraniad craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r ymgyrch ffliw tymhorol a throsglwyddo **£(0.057) miliwn** i'r MEG Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r cynllun sgorio hylendid bwyd yn trosglwyddo i'r setliad cymorth refeniw.

**Hyrwyddo Gwella Iechyd a Gweithio Iach**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Cyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 5.087 | (0.461) | 4.626 |

Mae hyn yn cynorthwyo mentrau a chamau gweithredu sy'n cael eu datblygu i gynorthwyo *Ein Dyfodol Iach* gan gynnwys y strategaeth rheoli tybaco a darparu nyrsys mewn ysgolion uwchradd.  Mae gostyngiad o **£(0.461) miliwn** ar gyfer y cam

gweithredu hwn mewn perthynas â'r ddau gynllun, Newid am Oes a Naw Mis a Mwy yn trosglwyddo i Iechyd Cyhoeddus Cymru yng ngham gweithredu Noddi Cyrff Iechyd y Cyhoedd.

**Mynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 9.681 | 0 | 9.681 |

Mae hyn yn cynorthwyo'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd a'r rhaglen Cychwyn Iach. Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18.

**Cam Gweithredu Newydd – Rhaglenni Iechyd y Cyhoedd**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 0 | 19.531 | 19.531 |

Ar gyfer 2017-18, mae'r tri cham gweithredu a ddisgrifiwyd uchod wedi eu huno yn un cam gweithredu newydd i gwmpasu Rhaglenni Iechyd y Cyhoedd. Dyma'r camau gweithredu sydd wedi trosglwyddo:

- Cyflwyno Gweithgaredd wedi'i Dargedu i Ddiogelu Iechyd ac Imiwneiddio
- Hyrwyddo Gwella Iechyd a Gweithio Iach; a
- Mynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth

**Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfwng**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 6.712 | 0 | 6.712 |

Mae cyllid yn y Cam Gweithredu hwn wedi'i gyfeirio at sefydlu a chynnal cyflenwadau strategol o frechlynnau cyn-bandemig, cyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfiotigau, masgiau wyneb, peiriannau anadlu a defnyddiau traul. Mae cyllid hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer datblygu a chynnal a chadw cyflenwadau gwrthfesurau iechyd i ymateb i ryddhau sylweddau cemegol, biolegol radiolegol, niwclear a ffrwydrol yn ddamweiniol neu'n fwriadol.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn cyllido'r Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus, sy'n galluogi'r gwasanaeth ambiwlans i ddarparu triniaethau mewn amgylcheddau halogedig neu lle mae mynediad yn anodd. Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18

**Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 43.365 | 0 | 43.365 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido gwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, sy'n ceisio cynorthwyo creu tystiolaeth o ansawdd uchel i lywio polisi a bod o fudd i gleifion a'r cyhoedd. Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gyda gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o fis Ebrill 2016 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ym mis Ebrill 2017 mae'r gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei hailstrwythuro. Bydd hyn yn cysoni cyllidebau â'r prif raglenni gwaith a weithredir drwy'r ddeddfwriaeth ac mae'n adlewyrchu sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru (drwy ehangu rôl y Cyngor Gofal Cymru presennol o fis Ebrill 2017). Bydd yr ailstrwythuro hwn yn dileu llinellau cyllideb sy'n gysylltiedig â chynlluniau grant nad ydynt yn weithredol bellach sydd wedi cael eu cyfuno yn grantiau a ffrydiau gwaith newydd a byddant yn galluogi rheoli a lleoli adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithlon.

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 5.588 | (5.588) | 0 |

Fel rhan o ailstrwythuro'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol mae cyllido wedi trosglwyddo i'r cam gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy newydd a'r cam gweithredu Gofal a Chymorth Cymdeithasol newydd.

**Cam Gweithredu Newydd – Gofal a Chymorth Cymdeithasol**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| £m | £m | £m |
| 0 | 31.137 | 31.137 |

Mae'r cam gweithredu newydd hwn yn cyllido eiriolaeth ar gyfer oedolion, diogelu, y Strategaeth Pobl Hŷn, y Strategaeth Gofalwyr a chymorth i bobl anabl (gan gynnwys y Gronfa Byw'n Annibynnol).

**Oedolion a Phobl Hŷn – Ailenwyd yn Partneriaeth ac Integreiddio**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 32.721 | (30.887) | 1.834 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cyllido materion polisi yn ymwneud â thalu am ofal a gofal iechyd parhaus a hefyd yn cynorthwyo datblygu a gweithredu pellach o ran gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae lleihad o **£(30.887) miliwn** i'r cam gweithredu hwn yn bennaf mewn perthynas â throsglwyddo £(30.262) miliwn i'r cam gweithredu Gofal a Chymorth Cymdeithasol newydd o ganlyniad i'r ailstrwythuro mewn Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol – Ailenwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 16.246 | 2.957 | 19.203 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cyllido gwella gwasanaethau cymdeithasol sy'n cynnwys cyllid ar gyfer hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol, gwella gwasanaethau cyffredinol drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r cam gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy; grant tair blynedd newydd o fis Ebrill 2016 sy'n cyllido prosiectau trydydd sector sy'n cynorthwyo modelau newydd o ofal cymdeithasol.
Ceir cynnydd o **£2.957 miliwn** ar gyfer y cam gweithredu hwn o ganlyniad i'r ailstrwythuro mewn Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cyngor Gofal Cymru- Ailenwyd yn Gofal Cymdeithasol Cymru**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 10.034 | (0.040) | 9.994 |

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 o fis Ebrill 2017 yn rhoi pwerau newydd i Gyngor Gofal Cymru ac yn darparu ar gyfer newid yr enw i Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd yn cyfuno cyfrifoldeb am reoleiddio'r gweithlu, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaeth o fewn un corff. Mae lleihad o

£0.040 miliwn i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18 o ganlyniad i ofynion nad ydynt yn arian parod. Mae'r cyllid hwn wedi'i drosglwyddo yn ôl i'r brif gyllideb ddibrisio ar gyfer y MEG.

**Y Comisiynydd Pobl Hŷn**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 1.545 | 0 | 1.545 |

Mae hyn yn darparu cyllid ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae hon yn swydd annibynnol – y gyntaf o'i math yn y byd - a sefydlwyd i sicrhau y caiff buddiannau pobl hŷn yng Nghymru, sy'n 60 oed neu'n hŷn, eu diogelu a'u hyrwyddo. Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18

**Darparu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol – Ailenwyd yn Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 22.344 | 0 | 22.344 |

Mae mwyafrif y gyllideb hon yn cynorthwyo camau gweithredu Chwaraeon Cymru wrth gynyddu darpariaeth chwaraeon a hamdden egnïol a'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn y rhain mewn cymunedau ledled Cymru, gyda phwyslais cynyddol ar y rhai mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer chwaraeon hefyd yn cael eu cyllido (drwy Chwaraeon Cymru) i ddarparu llywodraethu priodol ar gyfer eu chwaraeon, datblygu athletau â photensial uchel a sicrhau bod eu llwybr talent i chwaraeon elît yn galluogi'r athletwyr hynny i gystadlu ar y lefel uchaf bosibl.

Defnyddir y gweddill (tua 3%) o'r gyllideb i gynorthwyo gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chwaraeon fel yr adolygiad cyfleusterau chwaraeon a rhaglenni ar raddfa lai sy'n ymwneud â gwella iechyd drwy weithgarwch corfforol fel 'Dewch i Gerdded'. Nid oes newid i'r cam gweithredu hwn yn 2017-18.

**Cyfalaf**

| Llinellau Sylfaen Diwygiedig Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 | Newidiadau yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2017-18 |
|---|---|---|
| **£m** | **£m** | **£m** |
| 219.895 | 25.498 | 245.393 |

Mae Rhaglen Gyfalaf y GIG yn cynorthwyo darparu Gofal Iechyd yr 21ain Ganrif drwy wella canlyniadau gwella iechyd drwy sicrhau bod ansawdd a diogelwch

gwasanaethau yn cael eu gwella; gwella mynediad a phrofiad y claf; ac atal iechyd gwael a lleihau anghydraddoldebau iechyd.  Ymhlith yr enghreifftiau mae cyllid ar gyfer cerbydau ambiwlans a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol, yn ogystal ag ysbytai cymunedol newydd a chanolfannau llesiant.  Ar ôl cymhwyso £53481 miliwn i fan cychwyn 2016-17 mewn cysylltiad â chyllid unigol afreolaidd, ceir cynnydd net mewn cyllid cyfalaf o **£25.498 miliwn.**  Mae hyn yn cynnwys £31.189 miliwn o ddyraniad ychwanegol a throsglwyddo £(4.691) miliwn i'r MEG Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r grant cyllid cyfalaf cyffredinol a fydd yn cael ei weinyddu gan yr adran Llywodraeth Leol.

**ATODIAD B**

## Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
## Asesiad Effaith Integredig ar Gyllideb 2017-18

**TROSOLWG O'R PORTFFOLIO**

Mae'r portffolio yn datblygu ac yn cyflwyno polisïau sy'n darparu gwasanaeth iechyd a chymdeithasol ar gyfer Cymru ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o greu poblogaeth iach a gweithgar yng Nghymru.

Ein nod yw helpu pobl i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain drwy'r dull cyd-gynhyrchu - lle mae pobl yn gwneud penderfyniadau hyddysg ac ar y cyd ynghylch eu hiechyd gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Rydym yn trawsnewid y GIG er mwyn sicrhau bod mwy o ofal yn cael ei ddarparu mewn cymunedau lleol, yn agosach i gartrefi pobl yn hytrach na mewn ysbytai. Mae hyn yn gofyn am newid cynaliadwy, drwy gydweithredu mewn perthynas ag adnoddau ariannol a gweithlu, er mwyn darparu mwy o ofal iechyd mewn cymunedau - rydym yn parhau i wella mynediad i feddygfeydd teulu ac yn buddsoddi yn y gweithlu gofal sylfaenol. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ysgolion i hybu gweithgarwch corfforol ac ymwybyddiaeth o ddewisiadau ffordd iach o fyw.

Mae ein penderfyniad i ddyrannu cyllid ychwanegol o £265 miliwn ar gyfer iechyd yn 2017-18 yn cydnabod bod darparu setliad digonol a chynaliadwy yn ystyriaeth hanfodol nid yn unig ar gyfer cymdeithas gyfan, ond hefyd ar gyfer grwpiau gwarchodedig sy'n elwa o effeithiau cadarnhaol anghymesur.

### Proffil Gwariant

| **DEL Adnoddau Cyllidol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **MAES RHAGLENNI GWARIANT** | **2016-17 Cyllideb Atodol** | **Newidiadau i'r Llinell Sylfaen** | **2017-18 Newidiadau** | **2017-18 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cyflenwi'r GIG | 6263.080 | 14.619 | 285.789 | 6563.488 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 230.691 | | (14.921) | 215.770 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 159.260 | | 3.044 | 162.304 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 67.335 | | (3.622) | 63.713 |
| Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol | 22.605 | (0.261) | | 22.344 |
| **Cyfansymiau** | **6742.971** | **14.358** | **270.290** | **7027.619** |

### Newidiadau Allweddol i Wariant

- Cyllid ychwanegol o £240m ar gyfer y GIG;
- £1 miliwn ychwanegol ar gyfer Gofal Diwedd Oes

- Buddsoddi £1 miliwn mewn rhaglenni hunaniaeth rywedd ac anhwylderau bwyta
- £7 miliwn ychwanegol i gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan gynnwys denu mwy o feddygon teulu a hyfforddi mwy o nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- Rydym yn parhau i wario £50 miliwn ar y Gronfa Gofal Canolraddol i gadw pobl allan o ysbytai
- Gwasanaethau Cymdeithasol – wedi targedu £25m ychwanegol ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol;
- Iechyd y Cyhoedd – rydym yn diogelu buddsoddiad mewn rhaglenni i wella iechyd y cyhoedd; a
- Cronfa Triniaethau Newydd –£16m ychwanegol y flwyddyn dros gyfnod y Llywodraeth hon, er mwyn hwyluso mynediad i feddyginiaethau arloesol.

**Iechyd - Effeithiau**
Mae'n bwysig gwario arian ar y GIG ond mae darparu gofal o ansawdd uchel pan fydd pobl yn sâl dim ond yn un rhan o'r broses o sicrhau iechyd da. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd hefyd i atal iechyd gwael rhag digwydd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae ffocws wedi'i adnewyddu mewn perthynas ag atal problemau yn arbennig o bwysig wrth ystyried yr angen i ddiogelu iechyd plant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i ni ddiwallu anghenion iechyd ein poblogaeth sy'n heneiddio, yn ogystal ag ymateb i'r galw cynyddol am ofal iechyd a'r bwlch parhaus rhwng iechyd y cymunedau mwyaf cyfoethog a thlawd yng Nghymru. Bydd ein penderfyniad i ddarparu £240m ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru yn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth ac yn helpu i drawsnewid y gwaith o ddarparu gofal.

Ar gyfer y cyllid ychwanegol o £240m i'r GIG o fewn cyllideb Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd, disgwylir i bob Bwrdd Iechyd ystyried effaith eu penderfyniadau mewn perthynas â gwariant pan gaiff eu prif ddyraniadau eu nodi fel rhan o Ddyraniadau Refeniw'r Byrddau Iechyd a gyhoeddir ym mis Rhagfyr. Mae bellach rhaid i bob Bwrdd Iechyd gynhyrchu cynllun integredig tair blynedd ac fel rhan o'r gofynion cynllunio o fewn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, mae'n ofynnol iddynt ddangos sut mae'r cynllun integredig yn adlewyrchu cyfrifoldebau Deddf Cydraddoldeb 2010. Felly, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd ddangos sut maent yn ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig fel rhan o'u dyletswydd o dan y Ddeddf a hefyd sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried.

**Tystiolaeth ac Ymgysylltu**
Bydd buddsoddiad ychwanegol yn y GIG yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddiwallu'r twf parhaus o ran galw a chostau gwasanaethau a ddisgrifir yn adroddiadau'r Sefydliad Iechyd ac Ymddiriedolaeth Nuffield. Mae'r cynnydd yn y cyllid i'r GIG yn seiliedig ar dystiolaeth o fodel diweddaraf y Sefydliad Iechyd i adlewyrchu'r rhagdybiaethau diweddaraf ar bwysau gwario ac effeithiolrwydd yn y GIG.

**ATODIAD B**

Mae'r GIG yng Nghymru eisoes wedi profi llwyddiant arwyddocaol yn y meysydd hyn, trwy fesurau fel gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant, gostyngiadau o ran hydoedd aros mewn ysbytai a gostyngiadau o ran nifer y cleifion a gaiff eu derbyn i ysbytai.

**Iechyd y Cyhoedd**

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda phobl i helpu diogelu eu hiechyd wrth iddynt heneiddio. Drwy ddiogelu ein buddsoddiad mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd rydym yn ymrwymedig i ddarparu rheolaeth gryfach dros iechyd a llesiant a mynediad cyflymach i gyngor a gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf.

Cyllideb grant Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW NHST) yw £88.7 miliwn, ac mae'n cyllido gwasanaethau iechyd cyhoeddus craidd y GIG, fel sgrinio a diogelu iechyd. Fel sefydliad y GIG, bydd PHW NHST yn wynebu cynnydd parhaus o ran costau yn sgil chwyddiant, a rhywfaint o alw a phwysau mewn perthynas â gwasanaethau. Felly, cynigir y dylid cynnal cyllideb gyfredol PHW NHST ar y lefelau cyfredol yn nhermau arian parod, a fydd yn golygu bod angen i'r sefydliad ddod o hyd i effeithlonrwydd blynyddol er mwyn gwrthbwyso twf arian parod.

Mae'r cyllidebau ar gyfer hybu iechyd, diogelu iechyd ac atal problemau wedi aros yr un fath yn 2017-18. Caiff rhaglenni fel imiwneiddio a sgrinio eu diogelu ac mae effaith y rhaglenni hyn yn cynnwys imiwneiddio a brechu tua 140,000 o blant yng Nghymru bob blwyddyn; brechu mwy na 99,000 o blant a mwy na 420,000 o bobl dros 65 oed rhag y ffliw a darparu gwasanaethau Sgrinio Retinopatheg Diabetig i fwy na 111,000 o gleifion. Gyda'r gwasanaethau hyn y nod yw cyffredinoliaeth gymesur, helpu pawb yn y gymuned, ond targedu cymorth yn unol â'r angen. Felly, er enghraifft, mae mwy o ymdrech yn cael ei gwneud ar hyn o bryd i sicrhau bod grwpiau nad ydynt yn manteisio ar gyfleoedd sgrinio iechyd ar hyn o bryd yn cael eu helpu i wneud hynny.

Mae dros hanner oedolion a chwarter plant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni i fynd i'r afael â gordewdra. Mae'r gost sydd ynghlwm wrth fod dros bwysau neu'n ordew i'r GIG yng Nghymru yn dod i gannoedd o filiynau bob blwyddyn, gyda diabetes math 2, y mae gordewdra yn ffactor risg mawr sy'n gysylltiedig â hyn, yn cyfrif am 10% o gyllideb gyfan y GIG. Cynigir brechiad tymhorol rhag y ffliw i'r bobl hynny sydd â BMI sy'n uwch na 40 nawr hefyd.

Mae'r cynnydd yn y cyllid i **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn bennaf yn cynrychioli trosglwyddo cyllideb ac ymrwymiadau i'r dyraniad cyllid craidd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyllid craidd yn galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei swyddogaethau yn unol â deddfwriaeth, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cwmpasu gwella a diogelu iechyd, gwybodaeth ac ymchwil am iechyd y cyhoedd, a rhaglenni sgrinio cenedlaethol ar gyfer y boblogaeth yng Nghymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu llawer o'r camau gweithredu mewn perthynas â gwella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau o ran disgwyliad bywyd iach.

**ATODIAD B**

Bydd **cyllid imiwneiddio** yn cefnogi rhaglenni newydd ar gyfer llid yr ymennydd B a llid yr ymennydd ACWY yn ogystal ag ymestyn yr ymgyrch dymhorol i frechu rhag y ffliw ar gyfer plant. Mae imiwneiddio yn wasanaeth byd-eang y mae poblogaethau sy'n cynyddu yn effeithio arno. Y nod yw creu 'imiwnedd torfol', gan ddiogelu pob rhan o'r gymuned yn gyfartal.

Gall camau gweithredu iechyd y cyhoedd gyfrannu at yr **agenda gofal iechyd darbodus**, gan wella effaith gwario, er enghraifft, drwy:

- helpu grymuso pobl a'u cymunedau i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd ar sail cydgynhyrchu; a
- datblygu dulliau atal effeithiol ac ymyriadau cynnar sy'n gallu osgoi problemau drud yn ddiweddarach.

Er enghraifft, mae Cymru Iach ar Waith (£0.195m) yn cefnogi cyflogwyr ar draws pob sector i ddatblygu polisïau ac ymyriadau i hybu iechyd a llesiant eu staff a lleihau effaith salwch ar waith. Mae Cymru Iach ar Waith yn denu cyllid ar y cyd o bortffolio'r economi (£0.6m) ac ar hyn o bryd mae'n effeithio ar 460,000 o weithwyr mewn dros 3000 o gyflogwyr yng Nghymru. Mae'r rhaglen bellach yn cynnwys Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith (0.214m) a gefnogir gan £3.2m o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o absenoldeb salwch hirdymor, i ddychwelyd i'r gwaith – y nod yw cefnogi 4000 o bobl a 500 o gyflogwyr dros 3 blynedd...

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda phobl i helpu diogelu eu hiechyd wrth iddynt heneiddio. Rydym hefyd yn cydnabod bod y gwasanaeth iechyd a'r sector iechyd ehangach yn chwarae rhan hanfodol wrth ategu ac ysgogi ein heconomi, gan helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd economaidd a lleihau'r ffactorau economaidd sy'n llywio salwch. Mae'r GIG yn chwarae rôl arwyddocaol yn yr economi genedlaethol, o ran cyflogaeth, caffael, buddsoddiad cyfalaf ac arloesedd. Yn gynyddol, manteisir ar y cyfle i ddefnyddio dylanwad a chyllideb y GIG i ddylanwadu ar gyfleoedd pobl o ran iechyd da drwy gyflogaeth well a chyfrannu at ffyniant. Mae ein rhaglenni yn ceisio lleihau effaith tlodi a gwella cyfleoedd bywyd pobl, gan ategu amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.

Yn 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd fuddsoddiad wedi'i ddiogelu o £10m i gefnogi Rhaglen Effeithlonrwydd Trwy Dechnoleg (Rhaglen ETT). Dyfernir y cyllid hwn ar sail gystadleuol i sefydliadau'r GIG er mwyn cefnogi'r gwaith o werthuso a mabwysiadu cynnyrch a gwasanaethau technoleg yn gyflym, gyda phwyslais ar effeithlonrwydd, canlyniadau gwell ar gyfer cleifion, a dulliau fesul graddfa i lefel Cymru gyfan. Mae'r Rhaglen ETT hefyd yn cefnogi prosiectau cenedlaethol i annog datblygu technoleg, arloesedd, ymgysylltu â diwydiant, a phartneriaethau rhyngwladol (gan gynnwys rhwydweithiau a chyfleoedd cyllido'r UE). Caiff pob prosiect ei reoli'n weithgar i sicrhau gwerth am arian ac mae'r cyllid ETT wedi derbyn cymhareb arian cyfatebol dda. Mae proses werthuso wedi'i hymgorffori o fewn pob prosiect, yn ogystal ag ar lefel rhaglen. Bydd y Rhaglen ETT yn parhau yn 2017-18.

**ATODIAD B**

**Cronfa Triniaethau Newydd**
Bydd cyflwyno'r gronfa triniaethau newydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno meddyginiaethau cost uchel cyfoes ac arloesol a argymhellir gan NICE neu AWMSG, a hynny ar raddfa gyflym. Byddwn yn sicrhau bod £80m ar gael dros fywyd y llywodraeth hon er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau newydd ar gael, sy'n ymdrin ag angen clinigol nas bodlonwyd o'r blaen ac sy'n cynrychioli cam sylweddol ymlaen ar gyfer trin clefydau sy'n cyfyngu ar fywyd ac yn bygwth bywyd. Caiff y gronfa hon ei chyflwyno'n gyson ledled Cymru cyn gynted â phosibl yn dilyn argymhelliad cadarnhaol gan naill ai NICE neu AWMSG.

Mae'r gronfa wedi datblygu o'n profiad o wneud triniaethau cost uchel newydd ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau sy'n newid  bywydau sydd ar gael i bobl yng Nghymru. Yn 2015-16, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid sylweddol o'i chronfeydd canolog er mwyn galluogi'r GIG i gyllido pedair triniaeth newydd ar gyfer hepatitis C a thriniaeth newydd ar gyfer clefyd prin, genetig a chynyddol o'r enw Syndrom Wremig Hemolytig annodweddiadol (aHUS).  Roedd y meddyginiaethau yn cynrychioli cam mawr ymlaen o ran triniaeth ac yn sicrhau manteision iechyd a chymdeithasol sylweddol i gleifion.  Mae'n hanfodol bod y gronfa triniaethau newydd yn cael ei gweithredu mewn ffordd dryloyw a'i deall yn eang.  Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dull gweithredu i reoli'r gronfa'n effeithiol.  Rydym yn rhagweld y bydd y gronfa yn gweithredu erbyn mis Rhagfyr.

**Iechyd Meddwl**
Bu ymrwymiad i gyllid a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl ers mis Medi 2008 i ddiogelu'r swm o arian o fewn cyllideb y GIG a datganiad penodol sy'n nodi er y gellid arbed arian, ni ellir gwario unrhyw arbedion y tu allan i'r swm a glustnodwyd.  Rydym yn parhau i gydnabod rôl bwysig gwasanaethau iechyd meddwl wrth wella canlyniadau cleifion.

**Effeithiau**
Nod ein Strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* yw ymdrin â stigma a gwahaniaethu a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth o fewn cynllun cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* 2016-19. Yn ogystal, blaenoriaeth o fewn ein Rhaglen Lywodraethu newydd yw 'Gweithio i roi diwedd ar gamwahaniaethu ar sail iechyd meddwl'. Mae'r cynllun cyflawni newydd hefyd yn cynnwys cam gweithredu allweddol, sef 'Lleihau anghydraddoldeb ymhlith grwpiau agored i niwed sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar yr un gwasanaethau iechyd meddwl â phawb arall'.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**
Mewn perthynas â'n gofynion mewn deddfwriaeth i ystyried anghenion penodol plant a phobl ifanc, mae darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth i'w wella. Rydym yn parhau bob blwyddyn i sicrhau bod £7.968m ychwanegol ar gael i wella amrywiaeth darpariaeth CAMHS. Yn benodol, bydd y cyllid hwn yn helpu i wella gallu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol

(CAMHS) i ymateb y tu allan i oriau arferol ac mewn argyfwng, ymestyn mynediad i therapïau seicolegol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, sicrhau bod gwasanaethau yn ymyrryd yn gynnar i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n datblygu seicosis a datblygu gwasanaethau priodol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion niwroddatblygiadol, fel ADHD ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Mae rhaglen wella CAMHS (*Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)* wedi bod ar waith ers 2015 a bydd yn parhau yn 2016-17. Mae hyn yn cynnwys newid diwylliannol yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gall yr adnoddau CAMHS bach ac arbenigol ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r salwch meddwl mwyaf parhaus. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd angen i CAMHS ddatblygu, cynnal a chryfhau partneriaethau ag asiantaethau eraill yn yr awdurdodau lleol, ym maes gofal cymdeithasol a meysydd eraill. Mae timau amlddisgyblaethol sy'n gweithio i Wasanaethau Cymorth Teulu Integredig a mentrau fel elfen iechyd Dechrau'n Deg yn hanfodol i sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf yn cael mynediad i CAMHS arbenigol cyn gynted â phosibl; a hefyd i sicrhau nad yw'r rhai sydd â salwch iechyd meddwl lefel is, y gall asiantaethau eraill ymdrin â hwy, gyda chymorth CAHMS priodol, dan anfantais, gan leihau'r stigma sydd ynghlwm wrth iechyd meddwl.

Mae'r camau gweithredu a gynhwysir o fewn y cynllun hefyd yn cynnwys gwasanaethau ataliol – rhai cyffredinol ac wedi'u targedu, gyda'r olaf yn canolbwyntio ar feysydd risg uwch ac felly'n cysylltu â'r nodau a ddiffiniwyd yn y strategaeth tlodi plant.

**Plant sy'n derbyn gofal a throseddwyr ifanc**

Dengys tystiolaeth fod pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn profi lefelau uwch o anhwylder ymlyniad. Yn yr un modd, gall y rhai sydd yn y system troseddwyr ifanc hefyd brofi lefelau uwch o salwch meddwl. Drwy nodi ac ymdrin ag anghenion iechyd meddwl y grwpiau agored i niwed hyn yn gynnar gellid sicrhau eu bod yn integreiddio ac ymgysylltu'n llawn â'r ysgol a'r gymuned ehangach. Gall hefyd helpu adsefydlu a lleihau aildroseddu ymhlith troseddwyr ifanc. I gefnogi hyn, rydym wedi sicrhau bod £250,000 ychwanegol ar gael ers 2015-16 i wella'r ffordd y mae CAMHS yn gweithio gyda thimau troseddwyr ifanc .

Yn ogystal, mae camau gweithredu yng nghynllun cyflawni 2016-19 sy'n nodi y bydd byrddau iechyd yn gweithio gyda chymorth Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i gyhoeddi llwybr gofal cytûn ar gyfer pobl ifanc agored i niwed, fel plant sy'n derbyn gofal a phlant a fabwysiedir, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau atgyfeirio a chymorth priodol yn cael eu darparu rhwng CAMHS / gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol eraill / awdurdod lleol a'r system cyfiawnder ieuenctid erbyn mis Rhagfyr 2017.

**Sipsiwn a Theithwyr**

Ym mis Gorffennaf 2015 cyhoeddwyd 'Teithio at Iechyd Gwell'. Mae hyn yn ymateb i angen a nodwyd ac a brofwyd i wella mynediad i wasanaethau gofal iechyd a gwelliant i'r gwasanaethau hynny ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Cynhyrchwyd y canllawiau drwy gydweithio â Sipsiwn a Theithwyr yn ystod

pob cam ac mae'n darparu cyngor ar ymarfer proffesiynol a allai annog mwy o gyfranogiad mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau iechyd. Caiff y canllawiau Teithio at Iechyd Gwell eu cefnogi gan nifer o fesurau canlyniadol ar gyfer byrddau iechyd i gynorthwyo'r broses o'u gweithredu'n effeithiol. Tra bod goblygiadau ariannol y flwyddyn gyfredol yn ymylol, yn y tymor hwy, yn dilyn ymgynghoriad a gweithredu'r canllawiau ymhellach, mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol pellach, yn arbennig mewn perthynas â sicrhau bod gan y GIG wybodaeth a dealltwriaeth o anghenion gofal iechyd y gymuned hon a bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol.

Ym mis Medi 2015 cyhoeddwyd fframwaith y gwasanaeth ar gyfer trin pobl sydd â phroblem camddefnyddio sylweddau a phroblem iechyd meddwl ar y cyd. Dyluniwyd y canllawiau hyn i lywio a datblygu'r gwaith o ddarparu arferion integredig a chydweithredol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i oedolion, plant a phobl ifanc. Eto, caiff goblygiadau ariannol eu hystyried yn ymylol o fewn y flwyddyn gyfredol hon, fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol pellach yn dilyn derbyn cynlluniau gweithredu gan fyrddau partneriaeth iechyd lleol / byrddau cynllunio ardal camddefnyddio sylweddau

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo mewn nifer o feysydd ychwanegol gan gynnwys cefnogi cyflwyno'r concordat mewn argyfwng rhwng yr Heddlu, y GIG a phartneriaid eraill i wella ymatebion pobl sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu sydd â phroblemau iechyd meddwl, mae gweithgor o randdeiliaid allweddol mewn lle i sicrhau bod y concordat cyhoeddedig, *Crisis Care Mental Health Concorda*t, yn cael ei weithredu.

Byddwn hefyd yn cyflwyno llwybr gofal i sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael mynediad i ddarpariaeth iechyd meddwl cyffredinol a darpariaeth Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD) arbenigol **erbyn mis Ionawr 2017.**

Iechyd meddwl yw un o'r 4 maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu cynnar a nodwyd yn fframwaith strategol y Gymraeg – *Mwy na Geiriau*. Dangosodd Arolwg Boddhad Defnyddwyr Mehefin 2013 (Archwiliad Hanfodion Gofal) fod 98% o gleifion yn "derbyn gwybodaeth lawn am [eu] gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hangen". Er mwyn cefnogi hyn ymhellach rydym wedi sicrhau bod y pedwar llyfr mwyaf poblogaidd o dan Gynllun *Presgripsiwn Llyfrau Cymru* wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael ar CD. Yn lleol, mae mentrau Cymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys datblygu llwybr defnyddwyr gwasanaethau dwyieithog i gyfateb defnyddwyr gwasanaethau sy'n siarad Cymraeg â gweithwyr iechyd meddwl dwyieithog a nodi anghenion nas diwallwyd.

Mae cysylltiad clir rhwng problemau iechyd meddwl a thlodi. Canfu astudiaethau taw pobl â salwch meddwl sydd â'r gyfradd gyflogaeth isaf ar gyfer unrhyw grŵp o bobl anabl. Maent hefyd, y gellid dadlau, yn profi mwy o dlodi, tai llai digonol a mwy o unigrwydd cymdeithasol. Mae'n bwysig bod ein hymdrechion i drechu tlodi yn cydnabod hyn. Rydym yn gwybod bod llai o achosion o broblemau iechyd meddwl yn bwysig i sicrhau cymunedau sy'n

gweithredu'n iach, gwella cydlyniant cymdeithasol, cynhwysiant cymdeithasol a ffyniant. Rydym yn gwybod taw'r bobl hynny yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o ddioddef mwyaf o iechyd meddwl gwael a nifer uwch o achosion o salwch meddwl.

Mae cyllidebau yn effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar anfantais economaidd-gymdeithasol, trechu tlodi a datblygu cymunedau cynaliadwy, cyfrannu at gyflogi pobl yn uniongyrchol o fewn y maes iechyd meddwl, yn arbennig y Trydydd Sector a gefnogir drwy gyllid grant Adran 64. Mae ein gwaith hefyd yn cefnogi pobl agored i niwed drwy hybu adfer a fydd yn eu helpu i fyw'n annibynnol a chyfranogi'n economaidd. Dengys tystiolaeth taw salwch meddwl yw un o'r rhesymau allweddol dros absenoldeb yn y gwaith ac mae'n ffactor arwyddocaol ar gyfer nifer o bobl sy'n anweithgar yn economaidd yn yr hirdymor. Mae cyflogaeth yn arbennig o bwysig er mwyn osgoi byw mewn tlodi. Bydd hybu lles meddyliol a sefydlu gwasanaethau cymorth hygyrch yn lleihau nifer y bobl nad ydynt yn gallu gweithio o ganlyniad i salwch meddwl ac ar gyfer y rhai sy'n gweithio, yn hybu adfer cyflymach, lleihau faint o amser byddant i ffwrdd o'r gwaith a'u galluogi i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt. Ym mis Medi, lansiwyd rhaglen newydd o gefnogaeth gan gyfoedion i helpu bron 6000 o bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl i gael swydd, gyda chefnogaeth rhannol wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae rhaglen cefnogaeth gan gyfoedion arall a fydd yn helpu pobl sy'n gweithio ac yn profi problemau iechyd er mwyn cadw eu swyddi.

Un o themâu allweddol ein dull yw ymdrin â phroblemau yn gynnar er mwyn sicrhau nad ydynt yn datblygu i fod yn broblemau mwy difrifol pan fydd pobl yn oedolion. Bydd 1 o bob 10 plentyn rhwng 5 ac 16 oed yn dioddef problem iechyd meddwl, ac mae problemau ymddygiad gan lawer mwy. Yn ogystal, mae llawer o blant yn gweithio fel gofalwyr ac yn cefnogi rhieni/gwarcheidwaid sy'n dioddef salwch meddwl eu hunain. Mae angen cymorth arnynt er mwyn cyflawni eu rolau, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor.

Ym mhen arall y sbectrwm oedran, mae gwella gofal, cymorth ac ymwybyddiaeth o Ddementia yn flaenoriaeth allweddol. Mae Dementia yn costio llawer i gyllid cyhoeddus a phreifat, gyda niferoedd yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio. Mae gofalwyr yn talu cyfran uchel o'r gost a gall gyfrannu'n fawr at dlodi yn y cartref. Mae Dementia UK yn amcangyfrif bod £690m y flwyddyn yn cael ei golli mewn incwm i ofalwyr sy'n gorfod rhoi'r gorau i'w swyddi neu leihau eu horiau gwaith. Mae'r gost hefyd yn bersonol, gan fod y gofalwr yn aml yn gorfod rhoi'r gorau i'w fywyd cymdeithasol er mwyn darparu gofal ymroddedig, 24 awr y dydd, 7 dydd o'r wythnos. O fewn cynllun cyflawni 2016-19 rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu cynllun strategol ar gyfer dementia erbyn diwedd y flwyddyn galendr, a fydd yna'n destun ymgynghoriad ffurfiol.

**Tystiolaeth**
Mae buddsoddiad rheolaidd o 2011-12 o £3.5 miliwn yn cefnogi deddfwriaeth iechyd meddwl arloesol, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a ddechreuodd yn 2012. Mae'r buddsoddiad wedi golygu bod Gwasanaethau Cymorth Iechyd

**ATODIAD B**

Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol yn cael eu darparu'n lleol ledled Cymru. Rhwng Ebrill 2013 ac Awst 2016, cynhaliwyd dros 110,000 o asesiadau iechyd meddwl sylfaenol (cyn i'r Mesur gael ei roi ar waith nid oedd y gwasanaeth hwn ar gael).

Bydd set ddata graidd iechyd meddwl, gan gynnwys canlyniadau o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, yn gwerthuso effaith y strategaeth. Bydd yn cynnwys mesur canlyniadau o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a bydd hefyd yn casglu data am ethnigrwydd ym mhob lleoliad y GIG lle mae cleifion mewnol seiciatrig. Rydym yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn gyda Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG a Diverse Cymru.

Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2012) yn disgrifio sut mae iechyd meddwl yn llywio datblygiad cymdeithasol ac economaidd. Bydd y gyllideb iechyd meddwl gynyddol yn sicrhau bod Cymru ar flaen y gad wrth hybu iechyd meddwl da ac ymdrin â salwch meddwl pan fydd yn codi. Mae'r Strategaeth yn strategaeth drawslywodraethol integredig sy'n sicrhau bod iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach, fel tai, addysg a'r heddlu, yn cydweithio i gyflawni canlyniadau. Mae'n cynnwys plant ac yn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCHR) o fewn y dull. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau gwelliant parhaus ac o ganlyniad mae ganddi gynlluniau cyflawni tair blynedd ar draws deng mlynedd, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ar gyfer y camau nesaf ar gyfer gwella, mae wedi ystyried y cynllun tair blynedd gyntaf ac mae'r canfyddiadau, ynghyd ag ymgysylltu arwyddocaol gan randdeiliaid, wedi llywio'r gwaith o ddrafftio'r cynllun cyflawni nesaf sy'n cwmpasu'r cyfnod 2016-19. Bydd y cynllun hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol rhwng Ionawr a Mawrth 2016 ac a gyhoeddir ym mis Mehefin 2016.

Caiff llawer o bobl â chyflwr iechyd meddwl eu hystyried yn anabl o dan ddiffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010. Nod y strategaeth hon yw treiddio i ganol y broses o ymdrin ag anghydraddoldebau. Caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hystyried yn llawn mewn perthynas â'r Strategaeth a'i chynllun cyflawni a chaiff sylw arbennig ei dalu i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf e.e. y rhai sydd â dementia y mae angen clinigol iddynt gael asesiad yn eu hiaith gyntaf.

Bydd y buddsoddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddatblygiad economaidd hirdymor Cymru drwy greu swyddi arbenigol ac o ansawdd uchel o fewn y GIG. Bydd hefyd yn helpu tyfu'r gweithlu ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, disgwylir i'r gweithlu CAMHS gynyddu gan ddau draean o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn.

Yn fwy cyffredinol, bydd y buddsoddiad yn cefnogi'r gwaith o drechu tlodi drwy wella cyrhaeddiad addysgol ymhlith plant a phobl ifanc, sydd wrth wraidd y cynlluniau gwario. Dengys y dystiolaeth fod y cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed dros y blynyddoedd diwethaf (gyda chynnydd o dros 100% yn nifer yr atgyfeiriadau dros bedair blynedd) yn rhannol yn ymwneud â chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae £2m o gyllid yn cael ei dargedu at ddatblygu gwasanaethau i wneud diagnosis a thrin y

cyflyrau hyn a fydd yn arwain at fanteision uniongyrchol o ran cyrhaeddiad pobl ifanc, o ganlyniad i'r ffaith y gallant ymgysylltu'n llwyr ag addysg. Mae cyllid hefyd yn cael ei dargedu at bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, ac mae ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchar yn dangos fod gan y bobl yma lefel uwch o anghenion iechyd meddwl. Bydd sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu yn gynnar yn lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu ymhlith y grŵp hwn, gan hybu'r broses o'u hadsefydlu yn y gymdeithas.

Ar gyfer oedolion â phroblemau iechyd meddwl mae hyn yn cefnogi adfer pobl a'u chadw mewn gwaith os byddant yn datblygu problemau iechyd meddwl a'u galluogi i ymgysylltu â'r gweithlu eto wrth iddynt wella, sy'n cefnogi datblygiad economaidd yn yr un modd â chymorth ar gyfer eu gofalwyr er mwyn iddynt barhau o fewn y gweithle i leihau tlodi.

Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio ac o ganlyniad i hyn, bydd nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu. Mae gwella gwasanaethau ar gyfer y bobl sy'n dioddef dementia nid yn unig yn gwella ansawdd eu bywyd ond hefyd ansawdd bywyd yr aelodau teuluol hynny sy'n ysgwyddo'r baich o ofalu a thalu amdanynt, ac mae llawer o bobl yn rhoi'r gorau i weithio er mwyn cefnogi eu perthnasau. Mae hyn yn effeithio ar ansawdd eu bywydau eu hunain ac felly bydd buddsoddi mewn gwasanaethau newydd yn atal tlodi ymhlith y boblogaeth ehangach ac yn hybu blaenoriaethau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Gwelliant Parhaus**
Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn ein galluogi i fesur llwyddiant ein gwaith drwy amrywiaeth o fesurau canlyniadol, sy'n benodol i iechyd meddwl a dangosyddion mwy cyffredinol ar gyfer newid ehangach.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon